Cyngor Datblygu'r Economi

1 Chwefror 2018

Swyddi Gwell yn Nes at Adref

Cefndir

Yng nghyfarfod mis Hydref 2016 o Gyngor Datblygu'r Economi, cyflwynodd TUC Cymru eu hymgyrch 'Swyddi Gwell yn Nes at Adref'.

Prif nod cynnig TUC Cymru oedd galw am sefydlu dau brosiect peilot yn ardal Blaenau'r Cymoedd. Roedd y prosiectau peilot arfaethedig yn cynnwys defnyddio deddfwriaeth gaffael i neilltuo contractau addas, gan alluogi i ffatrïoedd newydd â chefnogaeth gael eu creu a fyddai'n darparu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant ar gyfer y bobl fwyaf difreintiedig yn yr ardal.

Os oedd y prosiectau peilot hyn yn llwyddiant, yna roedd ymgyrch TUC Cymru yn cynnig y byddai'n gyfle i wneud ymyriadau tebyg mewn rhannau eraill o Gymru.

Nod 'Swyddi Gwell yn Nes at Adref' yw profi ymyriadau caffael fel defnyddio contractau neilltuol trwy brosiectau peilot Swyddi Gwell. Unwaith yr ydym wedi profi eu bod nhw'n hyfyw, byddwn yn ymgysylltu â phrynwyr eraill y sector cyhoeddus er mwyn mabwysiadu dulliau o'r fath sydd wedi'u hategu gan enghraifft 'fyw' o sut y gellir eu rhoi ar waith. Bydd hyn nid yn unig yn helpu sefydliadau eraill y sector cyhoeddus i gynnal proses gaffael o'r fath, ond yn cael gwared ar y rhagdybiaeth nad yw hynny'n bosib.

Y cynnydd hyd yma

Mae'r rhaglen yn cael ei rheoli gan Dasglu'r Cymoedd ac yn rhan o gynllun cyflawni a gyhoeddwyd yn ddiweddar dan **Flaenoriaeth 1** [Swyddi o ansawdd da a'r sgiliau i'w cyflawni]; **Cam Gweithredu 6** *Cyflwyno Swyddi Gwell yn Nes at Adref yn y Cymoedd i greu cyfleoedd go iawn a swyddi da lle mae'r angen mwyaf. Mae hyn yn cynnwys defnyddio caffael cyhoeddus i gefnogi busnesau a chadwyni cyflenwi lleol*

Bydd y dulliau ymyrryd yn amrywio yn unol â phob prosiect peilot a ddatblygwyd, fel y noda'r diweddariad canlynol:

- **Prosiect Peilot 1: Hyb gweithgynhyrchu** - Bydd y prosiect peilot hwn yn caffael partner cymdeithasol i redeg uned weithgynhyrchu yng Nglynebwy. Bydd yr uned hon yn gweithredu fel Marchnad Lafur Drosiannol (ILM), sy'n berson-ganolog ac a fydd ar waith yng nghadwyn gyflenwi'r economi sylfaenol, yn gwneud dillad o'r radd flaenaf i'w defnyddio mewn diwydiant, gan gynnwys y sector cyhoeddus.

- Bydd yr ILM yn gweithio gyda'r awdurdod lleol a Llywodraeth Cymru i nodi màs critigol o bobl sy'n economaidd anweithgar ac er mwyn darparu'r llwybr i helpu'r rhai sy'n economaidd anweithgar i ddychwelyd i'r farchnad lafur ehangach.

- Bydd y gweithredwr ILM yn cael ei gaffael o'r farchnad menter gymdeithasol, a'i brif nod fydd buddsoddi elw yn ôl i waith yr ILM a chanolbwyntio ar helpu mwy o bobl yn ôl i waith.

- Bydd yr ILM yn gweithio'n agos gyda'r Ardal Fenter yng Nglynebwy er mwyn ei galluogi i baratoi pobl sy'n gweithio o fewn yr ILM ar hyn o bryd i gael y sgiliau angenrheidiol i gael swyddi parhaol lleol sy'n codi yn yr ardal a thu hwnt – dyma'r dull hyfforddiant allanol sy'n cael ei drefnu yn barod ar gyfer yr ILM.

- Mae'r rhwystrau i gyflogaeth, fel gofal plant a thrafnidiaeth, a dulliau o'u goresgyn, dan ystyriaeth hefyd.

- Mae'r sgiliau gofynnol wedi'u nodi ar gyfer pob elfen o waith yr ILM, o gyngyflogaeth i gyflogaeth o fewn yr ILM, ac mae'r rhain yn amrywio o gynllunio i weithredu peiriannau.

- Mae'r Tîm Swyddi Gwell wedi meithrin perthynas waith dda gyda chadeirydd Ardal Fenter Glyn Ebwy a thîm cymorth yr ardal, fel bod arwyddion cynnar o gyfleoedd yn cael eu rhannu â'r ILM.

Cynnydd – Disgwylir i'r broses gaffael gael ei chwblhau erbyn Ebrill 2018, ac y bydd y ffatri ar waith erbyn mis Mehefin 2018. Y bwriad yw cyflogi 25 o fewn yr ILM yn y lle cyntaf, gyda'r fanyleb yn canolbwyntio ar gamu ymlaen i swydd hirdymor gynaliadwy.

- **Prosiect Peilot 2**: **Arwyddion** – Mae hon yn fenter gymdeithasol gyfredol sy'n cyflogi pobl dan anfantais, a'r nod yw cynyddu oriau gwaith y gweithlu presennol. Mae Busnes Cymdeithasol Cymru yn helpu'r cwmni gyda materion rheoli galluedd a chynllunio yn barod ar gyfer rhagor o archebion a busnes.

Cynnydd – mae'r ffatri wedi derbyn rhagor o alw am arwyddion gan ddau awdurdod lleol, trwy eu contractau cyfredol. Mae Trafnidiaeth Cymru wedi dweud ar gyfer caffael byddant yn defnyddio'r ffatri hon ar gyfer eu gofynion arwyddion yn y ddogfen dendr y cwmni trenau. Bydd archebion ar gyfer y gofynion arwyddion yn dechrau o fis Hydref 2018 ymlaen. Nod y prosiect peilot hwn yw cynyddu oriau gwaith eu gweithwyr cyfredol, pob un ag anabledd, a chreu cyfleoedd gwaith newydd i bobl eraill dan anfantais.

- **Prosiect Peilot 3: Paent wedi'i ail-beiriannu** - Mae'r Tîm Swyddi Gwell wrthi'n datblygu Cyfrwng at Ddibenion Arbennig er mwyn ailadrodd gwaith sy'n cael ei wneud yn Birmingham ar hyn o bryd, yma yng Nghymru. Mae'r cwmni'n casglu paent gwastraff ac yn ei ailbeiriannu i'w ailddefnyddio. Y rheswm am hyn yw bod cyfaint paent gwastraff yng Nghymru yn cynyddu. Mae tîm Swyddi Gwell wedi llwyddo i dderbyn ymrwymiadau gan gadwyni cyflenwi i ddefnyddio paent wedi'i ailbeiriannu yng Nghymru ar gyfer prosiectau yng Nghymru.

- Mae gwaith profi ansawdd wedi'i gwblhau, ac mae Llywodraeth Cymru'n ymrwymo i ddefnyddio'r paent wedi'i ailbeiriannu ar adeiladau ei hystad ei hun, sef adeiladau Caerfyrddin (peintio'r tu mewn) ac adeilad Penlle'r-gaer Abertawe (peintio'n allanol). Mae cost paent wedi'i ailbeiriannu o fewn pris derbyniol y farchnad.

- Mae'r tîm yn cynnal trafodaethau â phartneriaid prosiect mawr er mwyn cynyddu'r galw am baent gwastraff a chyflenwi paent wedi'i ailbeiriannu. Mae'r tîm wedi gweithio gyda phartneriaid i sicrhau ymrwymiad gan adrannau gwastraff wyth awdurdod lleol, i'w paent gwastraff gael ei gasglu. Mae hyn yn sicrhau màs critigol o wastraff er mwyn helpu'r gwaith i barhau yng Nghymru, a chreu cyfleoedd cyflogaeth hefyd.

- Mae'r galw am y cynnyrch gorffenedig yn cynyddu hefyd, ac mae ymrwymiad wedi'i dderbyn gan Trafnidiaeth Cymru (amod contract gyda'r cwmni trenau [i'w benodi[) a dwy gymdeithas dai.

Cynnydd – Mae gwaith cynllunio cynnar ar y llwybr i gyflogaeth ar droed, gyda'r gwaith yn cael ei gyflawni gan Fenter Gymdeithasol o Ferthyr Tudful. Mae'r Tîm Swyddi Gwell yn Nes at Adref yn gweithio gyda Phartneriaeth Sgiliau'r De-ddwyrain, y Bartneriaeth Dysgu, Medrau ac Arloesi (LSkiP) hefyd, sydd wedi dweud bod prinder peintwyr ac addurnwyr [crefftau] yn ardal y De-ddwyrain. Mae hyn yn cael ei ystyried fel cyfle o fewn y prosiect peilot hwn.

- **Prosiect Peilot 4: Papur wedi'i ailgylchu** – Mae hon yn fenter gymdeithasol gyfredol sy'n cyflogi pobl anabl, ddigartref a rhai a fu'n ddi-waith am dymor hir yn flaenorol, ac mae'n gweithredu fel Marchnad Lafur Drosiannol. Mae'r cwmni'n casglu, didoli a charpio papur gwastraff ond mae angen mwy o dunelli o bapur er mwyn cynyddu'r cyfleoedd gwaith o fewn y cwmni, ac er mwyn iddo ddod yn hunangynhaliol yn ariannol. Sicrhawyd cytundeb i ateb y galw ychwanegol, ac mae'r fenter gymdeithasol wedi cael peth llwyddiant o ran symud pobl i'r farchnad waith ehangach.

Cynnydd – Mae'r tîm wedi sicrhau ymrwymiad gan awdurdod lleol i gyflenwi rhagor o bapur gwastraff i'r cwmni. Ar hyn o bryd, mae'r ffatri'n casglu deg tunnell o bapur y mis ac angen 60 tunnell y mis i fod yn hunangynhaliol. Nod y Tîm Swyddi Gwell yw cynyddu a rhagori ar y galw hwn, a fydd yn ei dro yn darparu mwy o gyfleoedd gwaith. Ar hyn o bryd, mae'r cwmni'n bwriadu cyflogi rhwng 11 a 50 o bobl yn y ffatri gyfredol, ond petai'r galw'n cynyddu, byddent yn awyddus i ehangu neu symud i adeilad newydd a darparu rhagor o gyfleoedd gwaith.